# Adroddiad y Corff Llywodraethol i Rieni

## *Governors’ Report to Parents*

## 2025

‘Herio heddiw, llwyddo yfory’

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TYLE’R YNN

‘Profiadau pwrpasol sy’n **herio’r** dysgwr i **lwyddo**’

# YSGOL GYNRADD GYMRAEG TYLE’R YNN

Gair gan y Cadeirydd / *A Word from the Chair*

**Annwyl Rieni/ *Dear Parents***

*Mae'n bleser gennyf, fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ar gyfer YGG Tyle'r Ynn. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi'r ysgol i ddarparu'r safonau uchaf o addysg, lles a chyfleoedd i bob disgybl.*
*Ar ran y Corff Llywodraethol, hoffwn estyn croeso cynnes i bob disgybl newydd a'u teuluoedd i'n cymuned ysgol, ac anfon ein dymuniadau gorau i'r rhai sydd wedi symud ymlaen i addysg Uwchradd.*
*Ein rôl fel llywodraethwyr yw darparu her a chefnogaeth i'r Uwch Dîm rheoli a'r staff, gan sicrhau bod pob plentyn yn ffynnu. Rydym yn cyflawni hyn drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Corff Llywodraethol Llawn a phwyllgorau is-benodol, gan alluogi craffu a thrafodaeth fanwl. Mae llywodraethwyr hefyd yn cynnal 'taith ddysgu' yn ystod y diwrnod ysgol i ymgysylltu â staff a disgyblion a chael mewnwelediad i feysydd dysgu allweddol. Yn ogystal, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddog Lles Addysg a'r Cyngor Ysgol i wella presenoldeb a lles, ac rydym yn cynnal asesiadau iechyd a diogelwch i gynnal amgylchedd diogel.*
*Eleni, rydym wedi croesawu aelodau newydd i'r Corff Llywodraethol, gan ddod â chyfoeth o brofiad ac egni. Rwy'n falch o arwain tîm mor ymroddedig sydd â chydymrwymiad diwyro i'r ysgol.*
*Hoffwn ddiolch i'm cyd-lywodraethwyr am eu gwaith caled, i'r staff a'r tîm arweinyddiaeth am eu hymroddiad di-flino, ac yn bwysicaf oll, i'n disgyblion sy'n parhau i ddisgleirio ac yn gwneud i ni deimlo'n falch. Rydym yn filch iawn o **Teulu'r Tyle** ac yn edrych ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall.*

*As chair of governors for School year 2024-2025 It is a pleasure to introduce the Annual Governors' Report to you for YGG Tyle'r Ynn.*
*On behalf of the Governing Body, I would like to welcome all new pupils and their parents and carers who have just joined the school and wish the best to those who have progressed too Comprehensive.*
*The work of the Governing Body is to challenge the Senior Management Team and Staff to provide the best education, support and wellbeing of the pupils. To that end we hold regular meetings of the Full Governing Body, with sub-committees to allow for greater scrutiny, challenge and discussion to take place. We also undertake 'learning walks' which are visits during the school day where we meet with staff and children to find out more information regarding an area of learning we have agreed to focus on. In addition to this, our members have spent time with the Education Welfare Officer and the school council discussing how to improve attendance and wellbeing and carry out a health and safety assessments.*
*The Governing Body has welcomed new members during this year, and we are very lucky that we have such a committed and enthusiastic group of Governors with a broad range of expertise and experience in so many important areas.*
*I'd like to thank my fellow members of our Governing Body for the dedication they have shown over the last year in the execution of their duties.*
*I would also like to thank the staff and senior leadership team for their dedication and tireless work, but more importantly the pupils of Tyler Ynn who continue to shine in everything they do, the school and we as a governing body really do take pride in Teulu'r Tyle.*

Yn gywir
Mr Justyn Knight
Cadeirydd y Llywodraethwyr/*Chair of Governors*

**Newid yn y trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol gyda rhieni**
***/ Changes in the requirement for an Annual Meeting with parents***

O ganlyniad i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a ddaeth i rym ar y 4ydd o Fai 2013, nid yw'n ofynnol bellach i gyrff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol i rieni. Y rhieni yw prif randdeiliaid y gymuned ysgol ac mae ganddyn nhw ddiddordeb clir a chryf yn addysg eu plentyn. Mae'n bwysig felly bod y corff llywodraethu yn ymgysylltu'n weithredol gyda rhieni ac yn parhau'n atebol trwy roi gwybodaeth a chyfleoedd iddyn nhw drafod a chael mewnbwn i'r ysgol.
Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 bellach yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethu trwy gyfrwng deiseb. Darperir crynodeb byr isod. Rhaid i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 niwrnod ysgol o dderbyn deiseb, cyn belled:

1. bod y ddeiseb yn cynnwys llofnodion yr isafswm angenrheidiol o rieni disgyblion cofrestredig
yn yr ysgol, sef yr isaf o'r canlynol:

(a) rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
(b) rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig.

2. rhaid i'r cyfarfod y mae rhieni wedi gofyn amdano drafod mater sy'n berthynol i'r ysgol.
3. ni chaiff mwy na thri chyfarfod eu cynnal yn ystod y flwyddyn y derbyniwyd y ddeiseb gyntaf.
4. mae digon o ddyddiau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal y cyfarfod.

Mae'r cyfarfod yn agored i holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y pennaeth ac unrhyw berson arall a wahoddir gan y corff llywodraethu. Cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu holl rieni disgyblion cofrestredig yr ysgol yn ysgrifenedig, beth yw dyddiad y cyfarfod, a'r mater i'w drafod.

*As a result of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013, which came into force on 4th May 2013, a school governing body is no longer required to hold an annual parents meeting.*
*Parents are major stakeholders in the school community and have a clear and strong interest in their child's education. It is therefore important that the governing body actively engages with parents, and remain accountable, by providing them with information and opportunities to discuss and have an input into school.*
*The School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 now enables parents of registered pupils at the school to request up to three meetings per year with the governing body via a petition.*
*A brief summary is provided below. The governing body must hold a meeting within 25 school days of receiving the petition, providing that:*

*1. The petition contains the signatures of the required minimum number of parents of registered pupils at the school, which is the lower of the following:*
*(a) Parents of 10% of registered pupils, or*
*(b) Parents of 30 registered pupils.*
*2. the meeting requested by parents must be to discuss a matter relating to the school.*
*3. there will be no more than three meetings held during the year in which the first petition is received.*
*4. there are sufficient school days left in the school year for the meeting to be held.*

*The meeting is open to all parents of registered pupils at the school, the headteacher and any other persons invited by the governing body. As soon as reasonably practicable, the governing body must notify all parents of registered pupils at the school in writing, the date of the meeting and the matter to be discussed.*

## Dyletswyddau'r Llywodraethwyr / *Duties of the Governing Body*

Rhaid i'r Llywodraethwyr gydweithio'n agos gyda'r pennaeth i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol.

- Hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad ac ymddygiad addysgol
- Gosod targedau ar gyfer cyflawni disgyblion
- Sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at gwricwlwm eang a chytbwys
- Penderfynu a monitro cyllideb yr ysgol
- Staffio – e.e. apwyntiadau staff, rheoli perfformiad
- Rhoi gwybodaeth i rieni ynglŷn â'r ysgol
- Cynhyrchu cynllun gweithredu a monitro cynnydd yn dilyn archwiliad gan Estyn
- Lles a diogelu dysgwyr.
- Yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol i rieni ac am gynnal cyfarfod blynyddol gyda'r rhieni pan fo angen i drafod yr adroddiad ac unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â rhedeg yr ysgol

Mae disgwyl i bob Llywodraethwr fynychu cwrs hyfforddi sydd wedi ei drefnu gan yr AALl Cynhelir tri chyfarfod tymor yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer Grwpiau Is-bwyllgor y Llywodraethwyr - cyllid, adeiladu, cwricwlwm, marchnata, personél.

*Governors have to work closely with the Head teacher and Staff to ensure that the school runs smoothly and efficiently.*

- *Promoting high standards of educational achievement and behaviour*
- *Setting targets for pupil achievement*
- *Ensuring that all learners have access to a broad and balanced curriculum*
- *Determining and monitoring the school's budget*
- *Staffing – e.g. staff appointments, performance management*
- *Providing parents with information regarding the school*
- *Producing an action plan and monitoring progress following an inspection by Estyn*
- *The wellbeing and safeguarding of learners.*
- *Are responsible for preparing an annual report to parents and for holding an annual meeting with the parents when needed to discuss the report and any other matters concerning the running of the school.*
-

*All Governors are expected to attend a training course organised by the LA.*
*Three termly meetings are held during the year. In addition, regular meetings are held for the Governors' Sub-committee Groups - finance, building, curriculum, marketing, personnel.*

## **Gwybodaeth Ysgol / *School Information***

| | |
|---|---|
| | **Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn** |
| Cyfeiriad<br>*Address* | Cligant Llansawel, Llansawel, Castell Nedd SA11 2UN<br>*Llansawel Crescent, Briton Ferry, Neath SA11 2UN* |
| Rhif Ffôn/Ffacs<br>*Telephone / Fax No* | 01639 812229 |
| E-bost<br>*Email* | swyddfa@yggtylerynn.npt.school |
| Gwefan<br>*Website* | ygg-tylerynn.j2bloggy.com |
| Awdurdod Addysg<br>*Education Authority* | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>*Neath Port Talbot County Borough Council.* |
| Ystod Oedran y Plant<br>*Pupil Age Range* | 3 - 11 oed / *yrs old* |
| Nifer ar y Gofrestr<br>*Number on Roll* | 288 gan gynnwys Meithrin bore / *including morning nursery* |
| Pennaeth gweithredol<br>*Acting Headteacher* | Mrs Lisa Cox |
| Cadeirydd Llywodraethwyr<br>*Chair of Governors* | Mr Justyn Knight |
| Clerc yr Ysgol<br>*School Clerk* | Mrs Sian Thomas / Mrs Emma Benjamin |
| SCC<br>*PSO / Bursar* | Miss Holly Pike |
| Clerc y Llywodraethwyr<br>*Clerk to Governors* | Liam Price |

## **Nifer o Blant a Staffio / *Number of Pupils and Staffing***

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Lisa Cox | Pennaeth gweithredol<br>Acting Headteacher | Niferoedd<br>Number |
| Mrs Gwen Malson | Bl *Yr* 6 | 22 |
| Miss Betsan Jones | Bl *Yr* 5A | 22 |
| Mr Josh Hanbury | Bl *Yr* 5B | 20 |
| Mr Isaac Thomas | Bl *Yr* 4 | 34 |
| Mrs Nerys Morgan | Bl *Yr* 3A | 23 |
| Mrs Hannah Dennis | Bl *Yr* 3B | 20 |
| Miss Grace Watts | Bl *Yr* 2 | 33 |
| Miss Kelly Williams a Mr Jonathan Bayliss | Bl *Yr* 1 | 39 |
| Miss Rhiannon Griffiths | Bl *Yr* D / R | 37 |
| Mrs Angharad Jones | Meithrin / Nursery | 39 |
| Miss Leonie Waters | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |
| Miss Carys Price | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |
| Miss Katie Hoare | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |
| Miss Emma Collingbourne | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |
| Miss Kaitlyn Doe | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant Lunchtime supervisor* |
| Mrs Lowri Fulford | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |
| Miss Briony Morgan | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |
| Miss Taylor Ayres | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |

| | | |
|---|---|---|
| Miss Caitlin Davies | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |
| Mrs Shanice Moore | Cynorthwydd Dosbarth<br>Staff awr ginio | *Teaching Assistant*<br>*Lunchtime supervisor* |
| Mrs Sian Thomas | Gweinyddol | *Administration* |
| Mrs Emma Benjamin | Gweinyddol | *Administration* |
| Mr Nigel Kendall | Gofalydd | *Caretaker* |
| Teresa Michael | Staff awr ginio | *Lunchtime supervisor* |
| Joanna Richards | Glanhawraig<br>Cogyddes | *Cleaner*<br>*School cook* |
| Maria James | Glanhawraig | *Cleaner* |
| Jill Jones | Glanhawraig | *Cleaner* |

**Categori Ieithyddol / *School's Language Category***

Lleolir yr ysgol yng nghanol tref Llansawel. Mae'r dalgylch yn cynnwys tref Llansawel, Sgiwen, Baglan a'r Melin. Mae'n rhan o ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Daw ychydig o'r disgyblion o gartrefi lle mae un rhiant yn medru siarad yn y Gymraeg ac ychydig iawn lle mae dau riant yn siarad Cymraeg. Dynodir yr ysgol gan yr ALl yn ysgol Gymraeg, sy'n golygu mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu, ond anelir at sicrhau bod y disgyblion yn rhugl yn y ddwy iaith erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Anelwn at feithrin yn y plant ymwybyddiaeth o Gymreictod a chariad tuag at wlad ac iaith.

*Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn is situated in the town of Briton Ferry. Its catchment area includes Briton Ferry, Baglan, Skewen and Melin. The school is part of Neath Port Talbot County Borough Council's administrative area.*

*A few children come from homes where one parent speaks Welsh, and very few from a home where two parents speak Welsh. The school is a designated Welsh school within the LA, where children are taught through the medium of Welsh, but we aim to make pupils bilingual in English and Welsh by their transition to secondary school. We aim to nurture in the children a pride in their country and its traditions and a love for its language and history.*

**Oriau'r Ysgol / *School Hours***

9 a.m. - 3.30 p.m.

Bore / *Morning*:-

| | |
|---|---|
| Adran Iau / *Junior Dept* | 9 am – 12:00 pm |
| Adran Babanod / *Infant Dept* | 9 am - 12:00 pm |

Prynhawn / *Afternoon:-*

| | |
|---|---|
| Adran Iau / *Junior Dept* | 1.00pm – 3:30pm |
| Adran Babanod / *Infant Dept* | 12:45pm – 3:15pm |
| Meithrin Bore / *Morning nursery* | 9.00 am - 11.30am |
| Meithrin Prynhawn / Afternoon nursery | 1:15am – 3:15pm |
| Clwb Brecwast / *Breakfast Club* | 8.15 am – 8.30 am |

**Cyllid / *Finance***

Gweler mantolen fanwl o gyllid yr ysgol yn atodiad 1. Ni hawliodd un aelod o'r Corff Llywodraethu gostau yn y flwyddyn ariannol 2024-25.

*A detailed finance statement is shown in appendix1. No member of the Governing Body claimed expenses during the financial year 2024-25.*

**Cysylltiadau â Rhieni / *Links with Parents***

Ymfalchïwn yn fawr fod yna bartneriaeth dda iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a chi fel rhieni. Fel arfer, mae'r ysgol yn darparu tair noson agored i rieni ymweld â'r ysgol er mwyn trafod gwaith a datblygiad eu plant. Cynhelir un noson yn ystod Tymor yr Hydref, a'r Gwanwyn a'r llall ar ddiwedd Tymor yr Haf. Mae'r disgyblion yn derbyn adroddiad ysgrifenedig manwl yn flynyddol ar ddiwedd tymor yr Haf. Os oes angen dod i'r ysgol i drefnu cyfarfod gyda'r athro / athrawes / Pennaeth, mae modd cysylltu â'r ysgol i wneud trefniadau cyfleus.

Yn ystod Tymor yr Hydref yn flynyddol cynhelir cyfarfod - "Croeso i'r Dosbarth Newydd" - ar gyfer rhieni. Yn ystod y noson, ceir cyfle i gael gwybodaeth am waith y dosbarth yn ogystal â chyfle i holi'r athrawon perthnasol.

Mae'r rhieni yn gallu cysylltu â'r ysgol drwy alwad ffôn i'r swyddfa, ebost, neu drwy Dojo. Ceir gylchlythyr wythnosol i hysbysu rhieni am newyddion a digwyddiadau yr ysgol.

*We pride ourselves with the very good relationship that exists between the school and the parents of Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn.*

*Normally, we would have three open evenings that are arranged every school year enabling the class teachers and parents / guardians to discuss the pupils' work and progress. One evening is held during the autumn and spring term and the other at the end of the summer term. Pupils receive detailed written reports once a year at the end of their academic year. Should parents wish to discuss anything with the teachers / head teacher, it is possible to contact the school to arrange a convenient appointment.*

*Early every autumn term, the school invites parents to school – "Welcome to the New Class" evenings.*

*During these evenings, parents meet the new teachers, receive information regarding the curriculum and receive an opportunity to ask relevant questions.*

*Parents are able to contact the school via telephone, email or Dojo.*

**Ymweliadau preswyl / *Residential visits***

Bu Blwyddyn 5 a 6 i Langrannog am 3 diwrnod yn ystod tymor Yr Haf a bu blwyddyn 4 am noson i ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd yn ystod tymor y Gwanwyn/ *Year 5 and 6 were fortunate enought o visit Llangrannog Urdd camp for three days during the Summer term and year 4 visited the Urdd Centre in Cardiff for a night during the Spring term.*

**Ymwelwyr â'r ysgol / *Visitors to School***

Gwahoddwyd nifer o bobl i'r ysgol i sgwrsio gyda'r plant yn ystod y flwyddyn. Gweler lluniau ar Dojo dosbarth a chyfrif Instagram a Facebook yr ysgol.

*Many people were invited to school to talk to the children during the year. All photos were circulated to parents through Class Dojo and through the schools Instagram and Facebook account.*

**CRaFf ysgol / *PTFa***

Dymuna'r Corff Llywodraethu ddiolch i aelodau a swyddogion y gymdeithas am eu llafur caled ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u haelioni. Mae angen parhau â'r gefnogaeth wych yma er mwyn trefnu mwy o weithgareddau ac er mwyn denu to newydd o rieni i'n plith. Diolch i 'Ffrindiau'r Ysgol' am roi cyfraniad sylweddol i'r ysgol er mwyn prynu cyfoeth o lyfrau darllen newydd sydd o ddiddordeb i'r plant.

*The Governing Body wishes to express its gratitude to the members of the 'Friends of the school' for their hard work and to the parents for their continued support and generosity. The 'Friends of the school' requires continued support in future, enabling them to arrange events that are more social and to encourage a new generation of parents to become*

*involved. This year the'Friends of the school' have donated a generous sum of money that has allowed us to buy new reading books that are both interesting and enjoyable for the children.*

## Yfed a Bwyta'n Iach / *Healthy Eating and Drinking*

I atgyfnerthu'n nodau chwaraeon, mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach ac anogir disgyblion a'u rhieni i fwyta'n iach. Dosbarthwyd taflenni i ddisgyblion a'u rhieni, yn eu hannog i ddarparu blychau cinio iach. Paratoir bwydlenni ar lefel Awdurdod sy'n sicrhau'r lefel gywir o faeth. Anogir disgyblion i yfed dŵr wrth weithio ac y maent yn ymwybodol o bwysigrwydd hydradiad y corff. Mae ffrwyth ar gael yn ddyddiol i bawb.
*To complement the school's sporting aims, the school promotes healthy eating and drinking, pupils are encouraged to eat healthily. Leaflets have been distributed to pupils and parents encouraging them to provide healthy lunch boxes. School menus are prepared at Authority level to ensure the correct nutrition level. Pupils are encouraged to drink whilst working and are aware of the importance of remaining hydrated. Fruit is available on a daily basis to all.*

## Anghenion Dysgu Ychwanegol / *Additional Learning Needs*

Daeth y côd newydd ADY i rym ym Medi 2022. Mae'r ysgol wedi dechrau gweithio i gydymffurfio â'r côd newydd.
Mae'r sbectrwm a gynhwysir o fewn anghenion arbennig yn eithriadol o eang, o blant â datganiadau swyddogol i blant eithriadol o ddisglair sy'n teilyngu gwaith ymestynnol i gadw eu diddordeb a datblygu eu galluoedd.
Gan fod sbectrwm o anghenion arbennig yn yr ysgol, rhaid darparu sbectrwm o ddarpariaeth arbenigol i ateb anghenion y plant. Bwriadwn i bob disgybl elwa'n llawn o'i gyfnod yn Ysgol Gymraeg Tyle'r Ynn; rhaid felly darparu'n llawn ar gyfer pob angen a gosod strwythurau yn eu lle i fonitro a darparu ar gyfer yr anghenion hynny.
Polisi cyffredinol yr ysgol yw gweithredu o fewn cysyniadau canolog, trawsgwricwlaidd tymhorol. Addysgir plant mewn dosbarthiadau o allu a rhyw cymysg ymhob blwyddyn yn yr ysgol.
Mae gennym 5 plentyn ar CDU Awdurdol Lleol, 14 ar CDU ysgol, a 27 o blant ar daflen targedau / rhestr fonitro. Bydd cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo grwpiau bychain o blant gyda'u targedau.
Mae polisi Addysg Dysgu Ychwanegol yr ysgol yn cydymffurfio â Chôd Ymarfer yr Awdurdod Addysg Leol. Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Cydlynydd ADY.
Mrs Morgan yw'r cydlynydd ADY.

*The new ALN bill came in to force in September 2022. The school has begun to work towards this new bill.*
*The spectrum included within Additional Learning Needs is very wide indeed, from children with an official statement to exceedingly bright children who deserve extension work to maintain their interest and develop their abilities. As there is a spectrum of Additional Learning Needs in the school, a spectrum of specialist provision must be made available to meet the needs of the children. We intend every pupil to profit fully from his/her period at* Ysgol *Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn; full provision must therefore be made available for every need and structures put in place to monitor and provide for those needs.*
*The general policy of the school is to work within termly, cross- curricular central themes. The children are educated in mixed ability and gender classes in every year at the school.*
5 children hold LA maintained IDP's, 14 have school maintained IDP's and there are 27 children who access our inclusive learning provision. *By now, support is provided for children with Additional Learning Needs within the classroom environment. Learning Support Assistants work with small groups of pupils on their targets.*

*The school's Additional Learning Needs policy fully complies with the Local Education Authority's Code of Practice. Mrs Nerys Morgan is the ALN coordinator, and the policy is reviewed annually.*

**Amddiffyn Plant / *Child Protection***

Swyddog Amddiffyn Plant yr ysgol yw'r Pennaeth gweithredol Mrs Lisa Cox a Mrs Nerys Morgan yw'r dirprwy swyddog dynodedig. Ar gyfer y flwyddyn Mrs Helen Clarke oedd cynrychiolydd y Corff Llywodraethu i gydweithio gyda'r ysgol parthed materion amddiffyn plant. Adolygir y polisi a'r gweithdrefnau yn flynyddol. Mae holl staff yr ysgol wedi diweddaru'u hyfforddiant Diogelu Plant gan y pennaeth.
*The Acting Headteacher Lisa Cox is the designated Child Protection Officer for the school, Mrs Nerys Morgan is the deputy child protection officer. Mrs Helen Clarke was appointed as the Governors representative for the year to work alongside the school. All staff have received update training in Child Protection from the headteacher.*

**Cyfleusterau i rai ag Anabledd / *Provision for the Disabled***

Ein nod yw creu cyfleoedd cyfartal i bawb. Ceir rhai cyfleusterau i'r anabl ar y safle.Mae'r Corff Llywodraethu wedi llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Mynediad sy'n cynnwys targedau tymor byr a hir dymor.
*It is our aim to create equal opportunities for all. The school has some facilities for the disabled. The School's Governing Body has prepared a Strategic Equality and Access Plan that includes short and long term targets.*

**Prosbectws yr Ysgol / School Prospectus**

Adolygwyd prosbectws newydd yr ysgol gan gynnwys llawllyfr i rieni a gwnaed mân newidiadau i adlewyrchu dyddiadau a staffio'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2024/2025. Yn unol â rheolau statudol, rhannwyd y llawlyfr yma gyda rieni plant sy'n cychwyn addysg llawn amser yn yr ysgol bob Medi. Gellir cael copi o'r llawlyfr yma o'r swyddfa neu wefan yr ysgol.
*The school's new prospectus including a new School Handbook for parents for the academic year 2024/2025 was reviewed and amended with small changes to dates and staffing. To comply with statutory regulations a copy of the school prospectus is shared with parents / guardians of pupils commencing full time education as from September every year. Copies of the prospectus are available from the school office or our website.*

**Y Cynghorau Ysgol / School Councils**

Corff wedi ei ethol yn ddemocrataidd yw'r cyngor ysgol a'r is bwyllgorau. Mae aelodau'r cyngor yn cael eu hethol gan eu cyd-ddisgyblion i gynrychioli eu dosbarth ar y cyngor. Maent yn cwrdd yn rheolaidd gydag aelodau o'r staff i drafod materion maent am eu trafod neu i godi arian dros achosion arbennig.
*The school council and its sub committees are a body of pupils that have been elected democratically. Members are elected by their fellow pupils to represent the class. The council meet regularly with members of staff to discuss school related issues and projects and to arrange fund raising events.*

**Safonau addysgu a dysgu / *Standard of teaching and learning***

Caiff safon yr addysgu a'r dysgu ei monitro'n gyson gan y cydlynwyr pwnc, arweinyddion tîm a'r pennaeth. Rydym yn buddsoddi mewn hyrwyddo datblygiad proffesiynol aelodau'r staff a datblygiadau arbennig yng nghynllun gwella'r ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mynychwyd nifer o gyrsiau gan y staff, ac mae'r wybodaeth a dderbyniwyd wedi ei chynnwys yng nghynlluniau a dulliau dysgu'r ysgol.
*The standard of teaching and learning is monitored systematically by subject co-ordinators, team leaders and the head teacher. As a school we invest heavily in the professional development of members of staff and for special developments in the school improvement*

*plan. Staff members attended a number of courses over the last academic year and the information gained has been included in the school's schemes of work and teaching styles.*

**Adolygu Polisïau'r Ysgol / *Review of School Policies***

Pan fydd yr ysgol yn derbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am bolisïau newydd, fe'u llunnir gan y staff ac fe'u cyflwynir i'r corff llywodraethu gan y pennaeth. Yn dilyn trafodaeth a chytundeb gan y corff cânt eu mabwysiadu fel polisi ysgol.

*When the school is in receipt of documentation from the Welsh Government requesting a new policy we follow the set guidelines. The school staff will develop the policy and the head teacher will present it to the governing body for discussion, agreement, and later adoption.*

**Policies adopted academic year 2024-25**

- Attendance and Punctuality Policy
- Safeguarding and Child protection policy (2024)
- Primary School SLA
- SLA Sickness Task Force
- Capability policy
- Disposal Policy
- Drug and alcohol misuse policy
- E safety policy
- Disciplinary procedures
- Grievance policy
- Teachers' Pay policy
- Uniform policy
- Strategic Equality plan

## Blaenoriaethau 2024-25 / *Priorities*

| CGY / SIP 2024-25 | | | |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | Llafar – Sut fydd datblygu a chodi proffil yr iaith Gymraeg yn y Gymuned yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafaredd ein disgyblion?<br>Oracy-How will developing and raising the profile of the Welsh language in our local community have a positive impact on our pupils' literacy skills. | | |
| Arwain y flaenoriaeth | Kelly Williams | Llywodraethwyr sydd yn arwain y flaenoriaeth | Justyn Knight |
| Blaenoriaeth 2 | CiG – Sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru trwy ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.<br><br>CfW- To ensure pupils make progress based on the expectations of Curriculum for Wales by developing a shared understanding of progress. | | |
| Arwain y flaenoriaeth | Josh Hanbury | Llywodraethwyr sydd yn arwain y flaenoriaeth | Angharad Thomas |
| Blaenoriaeth 3 | Adran y Gamlas<br>Parhau i ddatblygu a gwreiddio egwyddorion dysgu sylfaen ar draws yr adran dan 5 blwydd oed<br>Continue to develop and embed foundation learning principles across Adran y Gamlas ( Under 5's ) | | |
| Arwain y flaenoriaeth | Rhiannon Griffiths | Llywodraethwyr sydd yn arwain y flaenoriaeth | Lisa Clement-Jones |
| Blaenoriaeth 4 | I wella presenoldeb disgyblion (yn benodol disgyblion sydd yn gymwys am PYaDd )<br>To improve pupil attendance (particular focus on pupils eligible for FsM) | | |
| Arwain y flaenoriaeth | Lisa Cox | Llywodraethwyr sydd yn arwain y flaenoriaeth | Justyn Knight<br>Helen Clarke |

## **Cyfleusterau tai bach/*Toilet facilities***

Lleolir 18 ciwbicl tŷ bach a 6 droethle ar draws tair ardal adeilad yr ysgol. Mae'r cyfleusterau yn addas ar gyfer oed y plant sy'n eu defnyddio. Ceir 4 tŷ bach ychwanegol at ddefnydd staff ac ymwelwyr yn unig. Glanheir y tai bach yn ddyddiol. Mae gennym 2 dŷ bach anabl.
*There are 18 toilet cubicles and 6 urinals located in the three separate buildings of the school. The toilets are appropriate to the age of the children who use them. There is 4 additional toilet for the exclusive use of school staff and visitors. All toilet areas are cleaned on a daily basis. We have 2 disable toilets.*

## **Targedau Presenoldeb/ *Attendance targets***

Mae gan ein hysgol dargedau gwella presenoldeb ac y mae gan rieni a disgyblion ran bwysig yn y dasg o gwrdd â'r targedau hynny. Ers nifer o flynyddoedd, roeddwn wedi anelu at ganran o 95%. Mae'r pandemig yn sicr wedi effeithio ar dargedau a lefelau presenoldeb pob ysgol dros y blynyddoaedd diwethaf. O ganlyniad I hyn, ein targed nawr, yw 94%.

*The school has targets to improve attendance and parents and pupils have a crucial part to play in meeting these targets. For a number of years, our target was 95%. The pandemic has certainly affected targets and attendance levels of all schools over the last few years.* Consequently, our target is now 94%

**YGG Tyle'r Ynn**

**NPT**

| All Pupils | 2020/2021 | | 2021/2022 | | 2022/2023 | | 2023/2024 | | 2024/2025 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | Quartile | % | Quartile | % | Quartile | % | Quartile | % | Quartile |
| YGG Tyle'r Ynn | 94.24% | 0 | 91.43% | 0 | 92.64% | 1 | 93.09% | 1 | 91.72% | 0 |
| NPT | 91.18% | | 89.23% | | 89.80% | | 90.97% | | 91.97% | |
| Family | 0.00% | | 0.00% | | 91.80% | | 92.60% | | 0.00% | |
| Wales | 0.00% | | 0.00% | | 91.50% | | 92.10% | | 0.00% | |




## **Cyffredinol/ *General***

Mae Bwrdd Llywodraethol yr ysgol am ddiolch i staff yr ysgol am eu gwaith diflino ac I'r CRhaFf am eu cyfraniad i'r ysgol. Mae'r ysgol yn profi newidiadau am y gorau sy'n seiliedig ar wella safonau dysgu ac addysgu, ymddygiad cymeradwy a phroffil parchus o fewn ein cymuned.

*The Governing Body of the school would like to thank the staff for their tireless work and to the PTFA for its contribution to the school. The school has experienced positive changes that are based on high standards in teaching and learning, discipline and a good profile in our local community.*

**Llywodraethwyr ar ddiwedd Tymor yr Haf 2024 / *Governors as at the end of Summer Term 2024***

| GOVERNOR NAME | GOVRNOR TYPE | TERM DATES |
|---|---|---|
| Mrs Helen Clarke | Cadeirydd/Chair | 01.09.23-31.08.27 |
| Cllr Kirsty Morris | AAL/LA | 01.09.22-31.08.26 |
| Lisa Clement- Jones | AAL/LA | 01.09.22-31.08.26 |
| Mrs Angela Cooper | Cymunedol/Community | 17.10.23-16.10.27 |
| Mr Justyn Knight | Cymunedol/Community | 01.11.24-31.10.28 |
| Mr Lee Saunders | Cymunedol/Community | 26.11.24-25.11.28 |
| Bethany Morgan | Cymunedol Mân/Community Minor | 22.02.23 21.02.27 |
| Zoe Gladwin | Rhiant/Parent | 07.11.24-06.11.28 |
| Angharad Thomas | Rhiant/Parent | 04.12.19-03.12.23 |
| Leanne Drane | Rhiant/Parent | 07.11.24-06.11.28 |
| Angharad Morgan | Rhiant/Parent | 22..11.21-21.11.25 |
| Mrs Lisa Cox | Acting Head Teacher | |

Penodir Llywodraethwyr am gyfnod o 4 blynedd. Ar ddiwedd cyfnod rhiant-lywodraethwr, danfonir llythyr at holl rieni'r disgyblion yn yr ysgol yn gofyn am enwebiadau ar gyfer y lle (oedd) gwag.
*Governors are appointed for a period of 4 years. At the end of a Parent Governors term of office all parents are sent a letter asking for nominations for the vacant position(s).*

**Datganiad Cyllid Ysgol / *School budget statement***

| BUDGET | £ | EXPENDITURE | Actual |
|---|---|---|---|
| Formula Allocation | £961,424 | Teaching Costs | £668,778 |
| | | Payroll Costs | £306,733 |
| | | Other Payroll Costs | £2,678 |
| **TOTAL** | **£961,424** | Administration Costs | £16,239 |
| | | Local Authority Costs | £94,803 |
| | | Contract Costs | £16,045 |
| | | Premises Costs | £101,430 |
| | | Capitation Costs | £42,597 |
| | | **GROSS EXPENDITURE** | **£1,249,303** |
| | | Less:Income | |
| | | Grants | £214,068 |
| | | Misc Income | £71,963 |
| | | **NET EXPENDITURE** | **£963,272** |

| | £ |
|---|---|
| Projected Over/Under Spend | -£1,848 |
| Principal Investment 1/4/22 | £148,651 |
| **Total Investment 31/3/24** | **£146,803** |